

Dyfarnu Trysor

Daeth y Ddeddf Trysor i rym ym mis Medi 1997, gan ddisodli'r gyfraith gwlad flaenorol oedd yn ymwneud â thrysor darganfyddedig. Mae'r ddeddf yn ymwneud â rhai mathau o arian a gwrthrychau metel prin a gaiff eu darganfod yng Nghymru a Lloegr ac mae wedi ymestyn nawdd y gyfraith dros wrthrychau unigol o aur ac arian a bron pob celc arian bath. Bu gweithrediad y ddeddf hyd yma yn llwyddiannus iawn: yn ystod ei dwy flynedd cyntaf, mae staff yr Adran Archaeoleg a Nwmismateg wedi trafod achosion o bymtheg safle, gan gynnwys pedwar celc arian bath ac wyth modrwy fys. Trafodir yn yr erthygl hon ddau ddarganfyddiad gwych iawn a ddaeth i feddiant Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru yn ddiweddar. Cafwyd hyd iddynt gyda chymorth synhwyrdd metel.

Declared Treasure

The Treasure Act came into force in September 1997, replacing the former common law of treasure trove. It governs certain classes of coins and precious metal objects found in England and Wales and has extended legal protection to single objects of gold and silver and to virtually all coin hoards. The operation of the act has been very successful: in its first two years, staff from the Department of Archaeology & Numismatics have handled cases from fifteen localities, including four coin hoards and eight finger rings. Two spectacular metal detector finds, recently acquired by the National Museums & Galleries of Wales, are discussed in this article.

In September 1998, a hoard of over 3,750 Roman coins from the late third century AD, and one of the finest ever recorded from Wales, was found by Colin Roberts at Rogiet, Monmouthshire. The coins were declared treasure on 10 December 1998. The hoard had been buried, possibly in a wooden box, around AD 295-6 and the coins span a forty-year period, with twenty-two emperors represented, a sign of the political instability of the times. Indeed, their deposit,

Ym mis Medi 1998 cafwyd hyd i gelc o dros 3,750 o ddarnau arian Rhufeinig o'r drydedd ganrif OC, sydd gyda'r gwychaf i'w gofnodi yng Nghymru, gan Colin Roberts yn Rogiet, Sir Fynwy. Dyfarnwyd y darnau arian yn drysor ar 10 Rhagfyr 1998. Claddwyd y celc, mewn blwch pren o bosib, tua OC 295-6 ac mae dyddiadau'r darnau arian yn ymestyn dros gyfnod o ddeugain mlynedd ac yn portreadu dau ar hugain o ymerawdwr, ffaith sy'n arwydd o ansefydlogrwydd gwleidyddol y cyfnod. Yn wir, yn ôl pob tebyg, mae a wnelo'r claddu, a methiant y perchennog i ddod o hyd i'r arian, â'r sefyllfa filwrol a gwleidyddol ar adeg pan gâi Prydain ei rheoli gan gamfeddianwyr a phan geisiai ymerawdwr cyfreithlon adennill y dalaith. Ar yr un pryd, fodd bynnag, roedd diwygiad arian sylfaenol yn newid sail arian yr ymerodraeth. Ers yn gynnar yn y drydedd ganrif, newidiodd y naill ddiraddiad ar ôl y llall yr arian bath a wneud o arian yn ddarnau metel cyffredin ac arnynt haen o arian, a dreuliai'n gyflym wrth iddynt gael eu defnyddio. Cafodd pryd a gwedd y darnau arian eu gwella gan Aurelian (OC 270-5), ond Diocletian, yn OC 294-5, fu'n gyfrifol am gyflwyno darnau aur, arian ac aloi-copor newydd o gynllun a safon unfurf ledled yr ymerodraeth.



Celc Rogiet, fel y cafodd ei ganfod.
The Rogiet hoard, as found.

Cynnwys y celc yn bennaf fathiadau 'amgen' Aurelian a'i ddilynwyr Tacitus (275-6), Probus (276-82), Carus a'i deulu (282-4) a Diocletian a Maximian (284-305) – casgliad anghyffredin yn hanes darganfyddiad Prydeinig, gan na chafodd y bathiadau hyn, yn ôl pob golwg, eu dosbarthu'n eang ym Mhrydain – ynghyd â rhai o fathiadau gwael y 260au. Mae'n nodedig, hefyd, am gynnwys dros 750 darn arian bath Brythonaidd-Rufeinig 'Prydeinig', Carausius (287-93) ac Allectus (293-96). Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn *quinarii* Allectus, darnau arian isel eu gwerth na ddeur ar eu traws yn aml mewn celciau, yn portreadu gwahanol longau rhyfel. Ymhlith y celc hefyd ceir enghraifft wych (efallai'r orau mewn bodolaeth) o ddarn prin, clasurol o gyfres arian bath Brythonaidd-Rufeinig. Oddeutu OC 292, ymddengys i Carausius geisio cael sêl bendith swyddogol yr ymerawdwr Diocletian a Maximian i gyhoeddi arian bath yn eu henwau hwy yn ogystal ag yn ei enw ef ei hun. Aeth ati hyd yn oed i bortreadu ei hunan a'r ddau arall ar un cynllun, ac arno'r slogan 'Carausius a'i frodyr'. Ond nid oedd y syniad wrth fodd y ddau arall ac ymhen blwyddyn roedd Carausius yn farw; fe'i llofruddiwyd gan ei weinidog Allectus.

Ym mis Tachwedd 1998 cafwyd hyd i sêl-fodrwy aur, addurniedig, fawr iawn ger Rhaglan, Sir Fynwy, gan Ron Treadgold, a dyfarnwyd y darganfyddiad yn drysor ar 21 Ionawr 1999. Ar y fodrwy mae befel crwn wedi ei ysgythru â chynllun llew rhyngog ar wely o flodau o fewn border cebl sengl ynghyd â'r geiriau *to yow feythfoull* neu *feythfoull to yow* (llythrennau du bach iawn), a'r ddwy brif lythyren W A y naill ochr a'r llall i'r llew. Mae'r ysgwyddau wedi eu haddurno â blodau a dail. Mae addurn yr ysgwyddau, yn enwedig y ffordd mae'r blodau pigfain yn llenwi corneli'r panel, yn arwyddo-caol wrth astudio modrwyon canoloesol diweddar. Mae tebygrydd mawr rhyngddo a'r ysgythriad ar fodrwy esgobol aur John Stanbury, Esgob Henffordd (1452-74), croes heb ben yn dyddio o ganol y bymthegfed ganrif yn Winterringham, Swydd Lincoln, a modrwy aur o Briordy Godstow, Swydd Rydychen. Yn ôl pob tebyg, mae modrwy Rhaglan yn dyddio o ganol neu

and the owner's failure to recover them, probably relate to the military and political situation, at a time when Britain was ruled by usurpers and the legitimate emperors were trying to recover the province. At the same time, however, a fundamental coinage reform was changing the basis of the empire's currency. Since the early third century, successive debasements had reduced the silver coinage to one of base metal, coated with silver, which rapidly wore off in use. Aurelian (AD 270-75) improved the appearance of the coinage, but it was left to Diocletian, in AD 294-5, to introduce new gold, silver and copper alloy coins of uniform designs and standards empire-wide.

The hoard consists mainly of the 'improved' issues of Aurelian and his successors Tacitus (275-6), Probus (276-82), Carus and his family (282-4) and Diocletian and Maximian (284-305), a most unusual composition for a British find, since these issues appear not to have circulated in great numbers here, together with a few of the highly debased issues of the 260s. It is noteworthy, also, for containing over 750 coins of the two 'British' usurpers, Carausius (287-93) and Allectus (293-96). Almost all are *quinarii* of Allectus, a small denomination rarely found in hoards, which depicts a variety of

warships. A fine specimen (perhaps the best in existence) of a classic rarity of the Romano-British coinage series is also included in the hoard. In around 292, Carausius seems to have sought official recognition from the emperors Diocletian and Maximian, issuing coinage in their names as well as his own. He even depicted himself with the others on a single design, with the slogan 'Carausius and his brothers'. The sentiment was not reciprocated, and within a year Carausius was gone, murdered by his minister Allectus.

In November 1998, a massive and ornate gold signet ring was found near Raglan, Monmouthshire, by Ron Treadgold and this was declared treasure on 21 January 1999. The ring has a circular bezel engraved with a design of a lion passant on a bed of flowers, within a single cable border with the legend: *to yow feythfoull* or *feythfoull to yow* (black letter minuscule) and initials W A either side of the lion. The shoulders are decorated with flowers and leaves. The decoration of the shoulders, particularly the way in which the pointed flowers fill the corners of the panel, is of significance for the study of late medieval rings. Very close comparisons exist in the engraving on the gold episcopal ring of John Stanbury, Bishop of Hereford (1452-1474), a mid fifteenth-century *tau*-shaped cross from Winterringham, Lincolnshire and a gold ring from Godstow Priory, Oxfordshire. The Raglan ring is likely to date from the middle or third quarter of the fifteenth century, and is perhaps the finest example of late medieval gold jewellery to be found in Wales.

The original owner of the seal has yet to be identified, though the finding of the ring near Raglan and initials W A make William Herbert, first Earl of Pembroke (executed after the battle of Banbury, 1469) a tempting candidate. He married Anne Devereux, and the initials might stand for William and Anne. The size of the ring suggests that it was worn by a man, and the legend could be regarded as a sign of fidelity to his wife, making the motto a private one (while

chwarter olaf y bymthegfed ganrif ac mae, o bosib, gyda'r enghraifft orau o emwaith aur canoloesol diweddar y cafwyd hyd iddo yng Nghymru.



Modrwy Rhaglan
The Raglan Ring

Hyd yn hyn, ni wyddys pwy oedd perchennog gwreiddiol y sêl, ond gan y cafwyd hyd i'r fodrwy ger Rhaglan a chan fod arni'r llythrennau W A, mae William Herbert, Iarll Penfro cyntaf (a ddiennyddiwyd ar ôl brwydr Banbury, 1496) yn ymgeisydd dengar. Roedd yn briod ag Anne Devereux, ac mae'n bosib bod y llythrennau yn cyfeirio at William ac Anne. Mae maint y fodrwy yn awgrymu y câi ei gwisgo gan ŵr, a gellid ystyried y geiriau yn arwydd o ffyddlondeb i'w wraig, gan wneud yr arwyddair yn un preifat (gan adleisio hefyd ffyddlondeb i'r Goron a dynodi swydd frenhinol). Roedd Herbert yn un o ddau y cyfeiriwyd atynt fel gwŷr 'detholedig a ffyddlon' y brenin newydd Edward, ac ar achlysur coroni Edward rhoddwyd teitl iddo. Fodd bynnag, nid oes prawf y bu'r fodrwy yn eiddo i William Herbert. Mae enwau eraill, megis Walter ac Alice, yn bosib, ac nid yw'r arwyddair wedi'i restru. Yn ôl Herodr Arbenigol Cymru, Dr Michael Siddons, ni ddefnyddiai William Herbert y llew ar ei fathodyn, neu'r arwyddair dan sylw, er bod ei sêl ym mis Ionawr 1450 yn dangos llew *sejant gardant*. Ar hyn o bryd, yr unig beth y gellir ei awgrymu yn ddiogel yw mai arwydd o statws oedd y fodrwy ac roedd, yn ôl pob tebyg, yn eiddo i swyddog pwysig neu ymwelydd â Rhaglan yn ystod ail hanner y bymthegfed ganrif.

Caiiff gweithrediad y Ddeddf Trysor ei hadolygu'n ffurfiol ac yn genedlaethol yn ystod hydref 2000. Fodd bynnag, gellir mesur ei llwyddiant mewn nifer o wahanol ffyrdd, a'r dull amlycaf yw drwy nodi'r cynnydd yn nifer yr achosion a drafodwyd (o'r blaen roedd, ar gyfartaledd, tuag un achos o drysor darganfyddedig y flwyddyn yng Nghymru). Mae'n werth sylwi, hefyd, na fyddai unrhyw un o achosion y Ddeddf Trysor a drafodwyd hyd yn hyn wedi cael ei ystyried o'r blaen yn achos diamwys o drysor darganfyddedig, er ei bod hi'n bosib y byddai nifer bach wedi bod yn destun cwest gan y crwner. Yn ogystal, drwy roi cod ymarfer y ddeddf ar waith, mae hyn eisoes wedi darparu cyfleoedd i amgueddfeydd rhanbarthol yng Nghymru gael gafael ar ddarganfyddiadau sy'n haeddu bod ym meddiant y cyhoedd. Felly, mae'r rheolau newydd wedi sicrhau gwell amddiffyniad ar gyfer rhai categorïau o hynafiaethau sydd newydd gael eu darganfod (yn enwedig modrwyon bys), a gwell cyfleoedd i'w cadw er budd y cyhoedd.

Edward Besly, Nwmismatydd a Mark Redknapp, Arbenigwr
Oesoedd Canol, Adran Archaeoleg a Nwmismateg,
Amgueddfa ac Oriol Genedlaethol

echoing fidelity to the Crown and reflecting royal office). Herbert was one of two men referred to as the 'chosen and faithful' of the new king, Edward IV, and on Edward's coronation he was ennobled. However, the identification of the ring as that of William Herbert is not proven. Other names are possible, such as Walter and Alice, and the motto is unlisted. According to the Wales Herald Extraordinary, Dr Michael Siddons, William Herbert did not use a lion as his badge, or this motto, though he did seal in January 1450 with a lion *sejant gardant*. At present, all that can be safely inferred is that the ring was a mark of rank, and probably belonged to an important officer or visitor at Raglan during the second half of the fifteenth century.



'Carausius a'i frodyr' (Celc Rogiet).
'Carausius and his brothers' (Rogiet hoard).

The operation of the Treasure Act is due for a formal national review after three years, in the autumn of 2000. However, its success may be measured in several ways, most obviously by the increase in the number of cases handled (previously there was on average about one case of treasure trove per year in Wales). It is worth noting also that none of the Treasure Act cases handled to date would have previously constituted a clear-cut case of treasure trove, although a small number might have been the subject of coroners' inquests. In addition, implementing the code of practice for the act has already produced opportunities for regional museums in Wales to acquire finds which merit public ownership. The new regulations have therefore provided improved protection for certain categories of newly-found antiquities (notably finger rings), and better opportunities for preserving these for the public benefit.

Edward Besly, Numismatist and Mark Redknapp, Medievalist,
Department of Archaeology & Numismatics,
National Museum & Gallery